# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 22 Medi 2016 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 23 Medi 2016 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 30 Medi 2016 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Cynghorydd Mandy Williams-Davies – Aelod Cabinet – Economi, Adfywio, Caffael a'r Celfyddydau

**PWNC**

Enwebu Ymddiriedolwr i weithredu ar Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon

**PENDERFYNIAD -**

Enwebu'r Cynghorydd Tudor Owen i weithredu fel Ymddiriedolwr ar Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD–**

Ar ddechrau tymor bob Cyngor mae gofyn enwebu aelodau i gynrychioli Cyngor Gwynedd ar restr o gyrff allanol. Mae mwy o fanylion am y penderfyniad yma yn yr adroddiad atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Mandy Williams-Davies – Aelod Cabinet – Economi, Adfywio, Caffael a'r Celfyddydau |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Ann Roberts, Swyddog Cefnogi Aelodau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 22.9.16. |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | M Wms-Dx. |

**Pwnc :**

Enwebu Ymddiriedolwr i weithredu ar Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Enwebu'r Cynghorydd Tudor Owen i weithredu fel Ymddiriedolwr ar Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Derbyniwyd cais gan Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon i enwebu un ymddiriedolwr o 1 Tachwedd 2016 am gyfnod o 3 blynedd a bod angen iddynt dderbyn enwebiad erbyn 30 Hydref 2016.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Penderfynwyd ail-enwebu'r Cynghorydd Tudor Owen, gan ei fod yn gymwys i'r penodiad ac wedi ei chyflawni ers rhai blynyddoedd a bod angen y cysondeb hynny mewn cyfnod cyffrous yn hanes yr Ymddiriedolaeth.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Weithredwr – "Dim i'w ychwanegu".

Prif Swyddog Cyllid – "Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol".

Swyddog Monitro – "Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb".

Aelod/au Lleol - Dim